Diweddariad Misol yr NDA

Ionawr 2017

Crynodeb

- Ymgynghoriad pensiwn
- Cadeirydd newydd yr NDA
- OBE i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Thechnoleg
- Jiwbilî Platinwm Harwell
- Cael gwared ar slwtsh o bwll Sellafield
- Arloesi gyda datgomisiynu: cyllid ar gael
- Ymgynghoriad y Cynllun Busnes Drafft
- Lansio Cynllun Strategol Sgiliau Niwclear
- Anrhydedd oes i Brif Weithredwr yr NDA
- Mwy na 1,500 o ymwelwyr yn nigwyddiad y gadwyn gyflenwi
- Deifwyr dan y dŵr yn Dungeness
- Codi stêm yn Winfrith
- Penderfyniad cynllunio gwastraff Bradwell

Dyddiadau i'r Dyddiadur

• Ymgynghoriad y Cynllun Busnes Drafft	12 Rhag-03 Chwef 2017
• Cynhadledd Merched mewn Niwclear	1 Chwefror 2017
• Cyhoeddi Rhestr Gwastraff Ymbelydrol y DU	Mawrth 2017

Nuclear Decommissioning Authority

Diweddariad Misol yr NDA – Ionawr 2017

Ymgynghoriad pensiwn

Yn ystod y misoedd nesaf, mae'r NDA a Chyflogwyr ar draws ystad yr NDA yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ddau gynllun pensiwn cyflog terfynol yn ystad yr NDA:

- Cynllun Pensiwn Niwclear Cyfun (CNPP)
- Grŵp Trydan Magnox o'r Cynllun Pensiwn Cyflenwad Trydan (MEG ESPS)

Mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn rhan o ddiwygiadau parhaus i bensiynau'r sector cyhoeddus sy'n cael eu harwain gan y llywodraeth. Polisi'r llywodraeth yw y dylid diwygio holl gynlluniau pensiwn cyflog terfynol y sector cyhoeddus erbyn 2018, fel eu bod yn deg i gyflogeion ac i'r trethdalwr.

Pwrpas yr ymgynghoriad yw gofyn am safbwyntiau'r aelodau cyflog terfynol sy'n cael eu heffeithio ar y ddau drefniant sy'n cael eu hystyried ar gyfer diwygio pensiynau:

- trefniant Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE)
- Cap Cyflog Pensiynadwy.

Mae'r ymgynghoriad yn para tan ddydd Gwener 10 Mawrth 2017 ac rydym yn gofyn i gyflogeion rannu eu safbwyntiau a'u hadborth gyda'u cynrychiolydd sydd wedi'i enwi yn eu llythyr ymgynghori a'r llyfryn.

Cadeirydd newydd yr NDA

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Cyn Weinidog Ynni, y Farwnes Neville-Rolfe, benodiad Tom Smith fel Cadeirydd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Bydd yn cymryd yr awenau ar 1 Mawrth 2017 gan Stephen Henwood, a fydd yn camu i lawr fel Cadeirydd ar ôl 9 mlynedd yn y rôl.

Dolen we: Cyhoeddi enw Cadeirydd yr NDA

OBE i Dr Adrian Simper

Cafwyd cychwyn rhagorol i 2017 gyda'n Cyfarwyddwr Strategaeth a Thechnoleg, Adrian Simper, yn derbyn OBE am "wasanaethau i ddiwydiant niwclear y DU yn Japan".

Harwell yn dathlu Jiwbilî Platinwm

Mae dathliadau wedi bod yn cael eu cynnal ar ein safle ni yn Harwell wrth i'r gyn ganolfan ymchwil, man geni diwydiant niwclear y DU, gyrraedd oedran teg o 70. Yn 1946, fel roedd Prydain yn adfer wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd, cyflwynodd gwyddonwyr arloesol yn Harwell y DU i bŵer niwclear sifil - gan gynnwys datblygu adweithydd niwclear cyntaf gorllewin Ewrop. Adeiladwyd cyfanswm o 14 o adweithyddion arbrofol ar y safle, gan gynnwys adweithydd cyflym cyntaf y DU.

Dolen we: Jiwbilî platinwm Harwell

Diweddariad Misol yr NDA – Ionawr 2017

Cael gwared ar slwtsh ymbelydrol o bwll Sellafield

Mae slwtsh ymbelydrol wedi cael ei drosglwyddo o bwll tanwydd niwclear hynaf y byd am y tro cyntaf un, gan nodi cyflawniad hanesyddol yn ystod y rhaglen o ddegawdau i lanhau Sellafield. Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno 10 mlynedd cyn ei amser ac am hanner y gost ddisgwyliedig. Mae slwtsh, sydd wedi ffurfio o danwydd niwclear yn pydru, algâu sy'n tyfu'n naturiol a sbwriel arall, wedi cronni yn nŵr budr y Pwll Storio Tanwydd yn Sellafield yn ystod ei oes o 65 mlynedd. Rhaid cael gwared arno er mwyn datgomisiynu'r cyfleuster yn ddiogel.

Dolen we: Cael gwared ar slwtsh o bwll Sellafield

Cyllid ar gael ar gyfer arloesi gyda datgomisiynu

Gall sefydliadau wneud cais am gyllid i ddatblygu technolegau arloesol ar gyfer datgomisiynu niwclear. Mae'r NDA, Sellafield Ltd ac Innovate UK yn mynd i fuddsoddi hyd at £3 miliwn mewn prosiectau a fydd yn integreiddio ac yn dangos technolegau arloesol a hyblyg. Dylai prosiectau integreiddio technolegau yn un llwyfan, neu nifer bychan o lwyfannau, a cheisio lleihau'r ymyrraeth ddynol, cynyddu cynhyrchiant ac optimeiddio'r arfer o drin, pacio a llwybro gwastraff.

Dolen we: Cyllid ar gael ar gyfer arloesi gyda datgomisiynu

Ymgynghoriad y Cynllun Busnes Drafft

Rydym wedi lansio ymgynghoriad ar ein Cynllun Busnes Drafft, 2017 i 2020. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys rhai cerrig milltir allweddol yn y tymor byr, gan ddangos datblygiadau mawr yn ein cenhadaeth datgomisiynu. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 3ydd Chwefror 2017 ac rydym yn croesawu eich barn.

Dolen we: Cynllun Busnes

Lansio Cynllun Strategol Sgiliau Niwclear

Mae'r NDA yn croesawu lansiad y Cynllun Strategol Sgiliau Niwclear er mwyn sicrhau bod cyflogwyr niwclear y DU, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi, yn gallu recriwtio pobl fedrus yn unol â'r gyfradd ofynnol i fodloni rhaglen flaengar ac uchelgeisiol y sector. Mae'r Cynllun Strategol wedi cael ei lansio gan y Grŵp Strategaeth Sgiliau Niwclear (NSSG) ac mae'n datgan 19 cam gweithredu strategol a fydd yn cael eu troi, yn y diwedd, yn gynllun gweithredu manwl. Mae'r rhain yn amrywio o drefniadau hyfforddiant grŵp ar gyfer prentisiaid a chynlluniau bwrsari newydd i fentrau sgiliau rhanbarthol a chwricwlwm cenedlaethol clir.

Dolen we: Cynllun Strategol Sgiliau Niwclear

Gwobr cyflawniad oes i John Clarke

Mae Prif Weithredwr yr NDA, John Clarke, wedi cael gwobr cyflawniad oes am wasanaethau i'r diwydiant niwclear. Derbyniodd John y wobr gan y cyn Weinidog Ynni, y Farwnes Neville-Rolfe, o flaen 1,600 o bobl o bob cwr o sector ynni'r DU ac yn fyd-eang yng Nghinio Blynyddol Cymdeithas y Diwydiant Niwclear. Yn bresennol hefyd roedd yr Arglwydd Hutton, Cadeirydd yr NIA.

Dolen we: Gwobr cyflawniad oes

Llwyddiant Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi

Daeth mwy na 1,500 o ymwelwyr i chweched digwyddiad blynyddol yr NDA ar gyfer Cadwyn Gyflenwi'r Ystadau, a gynhaliwyd yn EventCity ym Manceinion. Dyma'r digwyddiad prysuraf a mwyaf llwyddiannus hyd yma. Yn dilyn cyflwyniadau yn y bore a'r gwobrau blynyddol anrhydeddus i gyflenwyr, cafodd y cynadleddwyr fanteisio ar gyfleoedd rhwydweithio anffurfiol ac ystod o sesiynau ar bynciau penodol. Ochr yn ochr â'r Parth Arloesi poblogaidd yn y brif neuadd arddangos, roedd 2016 hefyd yn cynnwys y Parth Sgiliau cyntaf erioed, gyda chynrychiolwyr o sefydliadau hyfforddi a datblygu'n ei oruchwylio.

Dolen we: Llwyddiant digwyddiad y gadwyn gyflenwi ac enillwyr y gwobrau

Plymio i'r dyfnderoedd

Mae deifwyr wedi bod yn gweithio o dan y dŵr i dorri ac adfer eitemau o'r pyllau tanwydd segur yn Dungeness. Gan wisgo dillad gwarchodol, a gwarchodaeth ychwanegol gan y dŵr, mae'r timau arbenigol yn gallu gweithio'n agos at sgipiau ac offer arall a hefyd cael mynediad i ardaloedd anodd. Mae deifwyr, sy'n cael eu defnyddio'n ehangach yn niwydiant niwclear UDA, yn gallu bod yn gynt ac yn fwy effeithiol na'r dull confensiynol pan mae offer o bell yn cael ei ddefnyddio i dynnu eitemau o'r dŵr, gyda photensial am lygredd yn yr awyr.

Dolen we: Deifwyr yn glanhau pyllau

Codi stêm yn adweithydd Winfrith

Mae darn terfynol o jig-so peirianneg cymhleth yn cael ei roi yn ei le yn awr, gan alluogi i graidd adweithydd arbrofol eiconig gael ei symud o'r diwedd. Erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf, bydd y gwaith wedi'i gwblhau ar ynysu Adweithydd Dŵr Trwm Cynhyrchu Stêm Winfrith o'r holl beirianwaith ac offer a oedd yn galluogi iddo weithredu. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar 1.5km o bibellau dur gwrthstaen hynod arbelydredig a oedd yn bwydo dŵr drwy'r adweithydd gan gynhyrchu stêm i yrru'r tyrbin ac wedyn ailddosbarthu'r dŵr wedi'i gyddwyso. Roedd cymhlethdod y prosiect yn golygu misoedd o waith paratoi, gan gynnwys creu model ffug ar raddfa lawn o'r peirianwaith. Unwaith

caiff y pibellau - sy'n cael eu hadnabod fel pibelli esgynnol a chyflenwi stêm - eu tynnu, bydd posib cael mynediad at yr adweithydd craidd ar gyfer datgomisiynu.

Dolen we: Datgomisiynu adweithydd gam yn nes

Penderfyniad cynllunio Cyngor Sir Essex

Mae Cyngor Sir Essex wedi cytuno i ddileu'r amod cynllunio sy'n gwahardd Gwastraff Lefel Ganolraddol o weithfeydd pŵer eraill rhag cael eu storio yn Bradwell. Mae cynlluniau i storio gwastraff o'r fath o Dungeness A a Sizewell A yn Bradwell yn rhan o strategaeth ehangach a allai arbed £200 miliwn i'r trethdalwr ar draws fflyd Magnox. Bydd yr NDA a Magnox yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid wrth i gynlluniau gael eu datblygu.